# Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr

**Mae ansawdd gwaith ieuenctid ar draws y gwasanaeth yn gyson gryf. Mae gweithwyr ieuenctid yn hynod fedrus, angerddol ac ymroddedig i osod pobl ifanc wrth wraidd eu harfer**

Fe wnaethom ni (Estyn, yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru) arolygu Gwasanaeth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Chwefror 2026.

## Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl gan Wasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr:

- Man diogel, croesawgar lle'r ydych yn cael eich trin gyda pharch
- Gweithwyr ieuenctid sy'n gwrando arnoch, yn eich cymryd o ddifri ac yn cadw pethau'n gyfrinachol (oni bai eu bod nhw'n poeni am eich diogelwch)
- Cymorth â phethau sy'n bwysig i chi – gan gynnwys ysgol, coleg, gwaith, hyfforddiant neu geisiadau am swyddi
- Help i fagu eich hyder, eich annibyniaeth a'ch medrau bywyd (fel cyllidebu, coginio, hyfforddiant teithio neu reoli emosiynau)
- Gweithgareddau y gallwch eu mwynhau – gan gynnwys chwaraeon, celf, cerddoriaeth, cyfryngau digidol, coginio a phrosiectau grŵp
- Cyngor ac arweiniad ar berthnasoedd iach, cadw'n ddiogel, diogelwch ar-lein ac ymwybyddiaeth o sylweddau
- Help i gael at wasanaethau eraill os oes eu hangen arnoch (er enghraifft cymorth â thai, iechyd meddwl neu gyflogaeth)
- Cyngor ac arweiniad ar berthnasoedd iach, cadw'n ddiogel, diogelwch ar-lein ac ymwybyddiaeth o sylweddau
- Cymorth â'ch iechyd emosiynol a'ch lles
- Amgylchedd cynhwysol lle mae croeso i bawb a pharch tuag at wahaniaethau.

Scan me!

## Beth na fyddwch efallai'n ei gael yng Ngwasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr:

- Cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu eich medrau Cymraeg neu ddysgu am ddiwylliant Cymru yn rheolaidd.

Estyn

For learners, for Wales